

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Chwefror 2024

Cyflwyniad

Ein dull ni

- Cymerom dystiolaeth gan Julie James, AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) a Lee Waters, AS, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog) yn ein cyfarfod ar 25 Ionawr 2024. Rhoddodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymlaen llaw.
- Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau craffu ar wahân gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a bydd yn cynhyrchu adroddiadau ar bob sefydliad maes o law, gan gynnwys ar faterion cyllidebol.

Trosolwg o'r dyraniadau

- Mae cyfanswm dyraniad cyfalaf a refeniw y Prif Grŵp Wariant (MEG) Newid Hinsawdd wedi cael ei leihau 2.9% o gyllideb derfynol 2023-24. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 4.5 y cant.
- Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn rhoi dadansoddiad o'r newidiadau yn y MEG. Ar gyfer 2024-25, cyllideb ddrafft refeniw (neu 'adnodd') Newid Hinsawdd MEG yw £1,216m. Mae hyn yn gynydd o £50.3m (4.3%) yn erbyn cyllideb derfynol 2023-24 o £1,165.7m. Y dyraniad cyfalaf yw £1,632.1m, sef gostyngiad o £134.2m (-7.6%) o £1,766.3m yng nghyllideb derfynol 2023-24.



5. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn esbonio bod £150.1m wedi'i ailddyrranu i leddfu'r pwysau a wynebir gan wasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Daw £116.3m o hyn o linellau cyllidebol sy'n berthnasol i feysydd pwnc o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae Llinell Wariant Cyllideb (BEL) refeniw TrC yn dangos £110.8m o gyllid ychwanegol.

6. Y llynedd, gwnaed ailddyraniadau i gefnogi gwasanaethau rheilffyrdd o fewn BELs trafndiaeth, ond eleni, maent yn dod o bob rhan o bortffolio'r Gweinidog. Dywedwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog:

"Mae nifer o'r newidiadau ariannu a ailbroffiliwyd mewn meysydd lle'r oedd cynnydd wedi'i gynllunio yn y cyllid sylfaenol ar gyfer rhaglen, lle'r oedd rhaglen yn dod i ben a lle mae

patrymau gwariant hanesyddol wedi awgrymu y gellid ail-gwmpasu cyllid heb fawr o effaith. Mae newidiadau i amserlenni cyflawni a gynlluniwyd hefyd wedi'u hystyried, yn hytrach na diffyg cyflawni, yn ogystal â dulliau cyflawni eraill."

7. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor, tynnodd y Gweinidog sylw at ymdrechion i leihau biwrocratiaeth a chostau gweinyddu o fewn ei chyllideb portffolio, gyda'r adolygiad sylfaenol o CNC yn cael ei roi fel enghraifft. Pwysleisiodd y Gweinidog y newidiadau diwylliannol a strwythurol a weithredwyd yn CNC, gan ei ddisgrifio fel taith barhaus. Yn yr un modd, bu perthynas wedi'i hailwampio â TrC sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau'r gyllideb. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor, eu bod wedi hybu hynny ar draws y MEG i gyd.

8. Trafododd y Gweinidog ddull gweithredu Llywodraeth Cymru yn wyneb cyfyngiadau cyllidebol, gan dynnu sylw at gydweithio â chyfarwyddwyr ar draws gwahanol adrannau. Roedd hyn yn canolbwyntio ar leihau effaith toriadau cyllidebol drwy arafu neu leihau cyllid yn rhannol ar gyfer prosiectau/rhaglenni penodol yn hytrach na'u hatal yn llwyr. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd cadw rhaglenni'n weithredol er mwyn eu galluogi i gael eu graddio os bydd amgylchiadau ariannol yn gwella.

9. Nododd y Gweinidog fod penaethiaid TrC a CNC yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd chwarterol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith eu gwasanaethau ar y gyllideb ehangach.

Ein casgliadau cyffredinol

Rydym yn cydnabod yn llwyr yr anawsterau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu gyda'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25. Yn ystod ein cyfarfod, cafodd ei ddisgrifio fel "storm berffaith", a bod angen cyllid ychwanegol sylweddol i gynnal gwasanaethau rheilffyrdd, effeithiau parhaus chwyddiant uchel, a bwlch o £1.3 biliwn ar draws Llywodraeth Cymru i gyd yn ychwanegu at yr her. Drwy gydol ein hadroddiad, rydym yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ffyrdd o liniaru effeithiau hyn.

Wrth wraidd ein pryderon mae'r cydbwysedd rhwng prosiectau uchelgeisiol a chyfrifoldeb cyllidol. Er enghraifft, croesewir gweledigaeth uchelgeisiol TrC o ran cyflawni prosiectau seilwaith sylweddol fel y Metro, ond rydym yn pryderu am gynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn crynhoi'r her y mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu wrth fynd ar drywydd prosiectau trawsnewidiol o fewn cyfyngiadau cyllideb gyfyngedig. Roeddem yn falch o glywed am y cydweithio agos gyda TrC a CNC yn ystod y broses o osod cyllideb ac ymdrechion i leihau costau biwrocratiaeth a gweinyddu ar draws portffolio'r Gweinidog. Bydd cydweithio a throsolwg parhaus yn hanfodol gyda setliad cyllideb mor heriol.

Rydym yn croesawu'r camau pendant a gymerwyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i gefnogi'r rheilffyrdd, ond fel y nodwyd yn ein hadroddiad, rydym yn pryderu am yr effaith y mae ailddyrranu arian wedi'i chael ar draws y portffolio. Y llynedd, daeth cyllid ychwanegol i gefnogi'r rheilffyrdd o fewn llinellau cyllideb trafniadaeth, tra bod y gyllideb ddrafft wedi golygu bod angen ailddyrranu cyllid o bob rhan o'r portffolio. Mae effaith ehangach hyn yn amlwg yn bryder. Serch hynny, credwn fod sicrhau bod prosiectau neu raglenni'n cael eu graddio'n ôl yn hytrach na'u hatal, yn ddull pragmatig o reidrwydd o dan yr amgylchiadau.

Dim ond cystal â'r wybodaeth a ddarperir i ni y mae ein gallu i wneud gwaith craffu effeithiol. Nid oedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom i gefnogi ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2024-25 yn cyrraedd y safon a ddisgwyliwn. Roedd gwybodaeth allweddol y gofynnodd y Pwyllgor amdani ar goll heb gydnabyddiaeth nac esboniad, roedd gwybodaeth y dywedwyd ei bod wedi'i chynnwys hefyd ar goll, ac roedd elfennau eraill yn anghywir neu'n anghyflawn. Mae'r diffyg eglurder hwn nid yn unig yn effeithio ar allu'r Pwyllgor i asesu cynlluniau'r Llywodraeth ond hefyd yn adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch tryloywder mewn llywodraethu.

Rhaid i'r gyllideb ddrafft adlewyrchu dull integredig, trawslywodraethol sy'n cwmpasu trafndiaeth, yr amgylchedd, ac anghenion cymdeithasol ehangach. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr heriau cyllidebol presennol. Bydd mynd i'r afael â thlodi trafndiaeth, er enghraifft, yn gofyn am ymyriadau mewn polisïau tai, cyflogaeth ac addysg. Yn yr un modd, rhaid adlewyrchu ymrwymïadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys bioamrywiaeth ac ynni adnewyddadwy, mewn cynlluniau datblygu ehangach. Dylai'r gyllideb ddrafft fod yn fwy na dogfen ariannol - rhaid iddi fod yn fap ar gyfer Cymru fwy cysylltiedig, hygyrch a chynaliadwy.

1. Trafnidiaeth

Rheilffyrdd

10. Ym mis Hydref 2023, dyfarnwyd cyllid ychwanegol o £125m i TrC yn ystod y flwyddyn. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor fis yn ddiweddarach, esboniodd James Price o TrC fod pwysau ariannol wedi codi oherwydd diffyg yn y twf refeniw disgwylidig:

"What we have lost is three years of expected high growth, and that equates roughly to the £100 million figure that we are short of, and, obviously, if you roll that forward, whilst we will recover, I don't imagine that we will recover overnight."

11. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod yr arian ychwanegol wedi bod yn hanfodol ar gyfer parhad gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru ac eglurodd:

"...achoswyd y pwysau hwn gan yr effaith barhaus y mae'r pandemig wedi'i chael ar yr amcanestyniadau refeniw uchelgeisiol o gais gwreiddiol KeolisAmey yn 2018, ochr yn ochr â'r cynnydd mewn rhai costau gweithredol o ganlyniad i chwyddiant."

12. Holodd y Pwyllgor ynghylch yr anghysondeb ymddangosiadol rhwng y dystiolaeth ysgrifenedig, a oedd yn awgrymu bod £150m wedi'i ailddyrranu i leddfu'r pwysau ar y rheilffyrdd, a refeniw BEL TrC a ddangosodd gynnydd o £110.8m. Eglurodd Peter McDonald mai'r £110 miliwn oedd y swm net a ddyrannwyd yn ffurfiol i TrC. Roedd y ffigur cychwynnol o £150 miliwn yn cynrychioli'r amcangyfrif gwreiddiol o'r cyllid angenrheidiol, ond roedd wedi'i leihau am sawl rheswm, gan gynnwys refeniw ychwanegol a gynhyrchwyd gan TrC. Daeth i'r casgliad, o ran y net yn ychwanegol yn y coffrau, dyma'r £110 miliwn.

13. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd cynnal sefydlogrwydd ariannol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi yn y gwasanaethau hyn er mwyn denu mwy o deithwyr, a thrwy hynny roi hwb i refeniw tocynnau trên. Dros amser, disgwylir i'r dull hwn leihau'r angen am gymorthdaliadau gan y llywodraeth.

14. Pan ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr 2023 ar gyfer craffu ar faterion trafniadaeth, tynnodd sylw at yr angen i ail-

raddnodi rhagolygon refeniw TrC i adlewyrchu realiti nifer y teithwyr a chostau cyfalaf.

15. Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog "mae'r £125m a gyhoeddwyd ym mis Hydref yr oedd ei angen i gynnal gweithrediadau rheilffyrdd ledled Cymru wedi'i nodi fel llinell sylfaen". Esboniodd Peter McDonald, yn wahanol i'r flwyddyn ariannol flaenorol, fod y cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 yn cael ei ddyrannu ymlaen llaw. Mae'r dull rhagataliol hwn yn mynd i'r afael â'r bwlch rhwng costau gweithredu a refeniw tocynnau trên.

16. Ym mis Rhagfyr 2023, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y bwlch rhwng cost rhedeg gwasanaethau rheilffyrdd a refeniw tocynnau trên ar ei uchaf. Bydd cau'r bwlch hwn yn cymryd amser. Yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft, esboniodd Peter McDonald fod costau yn cael eu codi ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd, tra bod refeniw tocynnau trên yn dod yn ddiweddarach. Cydnabu fod y cyfnod rhwng 2023 a 2025-26 yn heriol yn ariannol, a byddai pwysau cyllideb ehangach o fewn Llywodraeth Cymru yn gwaethygu hyn.

17. Aeth y Dirprwy Weinidog i'r afael â'r mater o arian wrth gefn pe bai'r refeniw tocynnau trên yn brin. Cydnabu sefyllfa anodd y gyllideb a'r angen i TrC fod yn ymwybodol o effaith ei reolaeth ariannol ar feysydd hanfodol eraill. Pwysleisiodd yr angen i reoli ac addasu parhaus ymateb i heriau annisgwyl wrth iddynt godi.

18. Ar 10 Ionawr 2024, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wrth Bwyllgor Cyllid y Senedd bod modd adfer nifer y teithwyr ar ôl y pandemig yng Nghymru yn debyg i'r Alban. Ac eto, doedd Llywodraeth yr Alban ddim wedi gorfod gwneud taliadau mawr ychwanegol i gymhorthdal gweithredol Scotrail yn ystod y flwyddyn. Roedd yn cwestiynu a oedd hyn yn deillio o wahaniaethau mewn tybiaethau gweithredol am dwf neu amcanestyniadau teithwyr a ddefnyddir gan gynigwyr masnachfaint cyn pandemig Covid-19.

19. Tynnwyd sylw'r Dirprwy Weinidog at y mater hwn. Pwysleisiodd fod Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu Metro De Cymru, menter seilwaith mawr sy'n wynebu heriau oherwydd chwyddiant. Nododd Peter McDonald fod Cymru a'r Alban ar wahanol gamau yn eu cylchoedd cyllidol priodol.

20. Ychwanegodd Peter McDonald fod TrC yn disodli ei holl gerbydau bron, gyda threnau newydd yn cael eu cyflwyno tua bob 10-14 diwrnod.

Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau

- 21.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cyfanswm dyraniad refeniw o £123.4m ar gyfer y BEL Cynnal Bysiau, gan gynyddu o £61m yng nghyllideb ddangosol 2024-25. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r ffaith bod £62.5m wedi'i drosglwyddo o refeniw Tocynnau Teithio Rhatach a'r Cynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc i adael y rheini ar sero. Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer bysiau yn weddol wastad.
- 22.** Nid yw'r Cyfalaf Cynnal Bysiau BEL wedi newid o gyllideb derfynol ddangosol 2024-25, sef £68m. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £10m o gyllideb derfynol 2023-24.
- 23.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, ailadroddodd y Gweinidog ei chefnogaeth barhaus i'r sector bysiau. Fel enghraifft, cyfeiriodd y dystiolaeth at y cymorth ariannol a ddarparwyd i weithredwyr bysiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy fentrau fel y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau.
- 24.** Amlinellodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog fod pedair ffrwd ariannu bysiau wedi'u lleihau i sero (Grant Bus Users UK Cymru, Cludiant i'r Ysgol, Cymorth Refeniw Bysiau a Chyllid Craidd y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol). Mae ffrwd ariannu Ategol i Fysiau wedi'i sefydlu gyda £2.4m wedi'i ddyrannu iddo.
- 25.** Eglurodd Peter McDonald mai rhai gweinyddol yn bennaf oedd y newidiadau i'r grantiau. Roedd hyn yn adlewyrchu dull mwy hyblyg o reoli cyllideb. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod atgyfnerthu'r llinellau cyllideb yn adlewyrchu trosglwyddiad i ddull mwy cynlluniedig ac effeithlon o reoli cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau.
- 26.** Cyhoeddodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog y bydd y Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau yn cael ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Nod y cynllun ariannu newydd hwn yw grymuso awdurdodau lleol i gynnal gwasanaethau cymdeithasol angenrheidiol. Bydd yn gweithredu ar y cyd â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau presennol.
- 27.** Eglurodd Peter McDonald mai bwriad y Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau newydd oedd lleihau ansicrwydd yn y gyllideb i fysiau drwy ddarparu lefel sefydlog o gyllid i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau contractio. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog mai'r nod oedd sefydlu rhwydwaith bysiau craidd gofynnol a gomisiynwyd gan gwmnïau bysiau am bris sefydlog.

28. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi bod cyllid sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau yn parhau i gael ei ddarparu i TrC. Bwriadwyd defnyddio'r cyllid at sawl diben, gan gynnwys gwaith paratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau, rheoli rhwydwaith TrawsCymru, gwasanaethau Fflecsi, a darparu gwybodaeth amserlen drwy Traveline Cymru.

29. Eglurodd y Dirprwy Weinidog y byddai trywydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan i amlinellu manylion y newid i fasnachfreinio bysiau. Roedd disgwyl i'r cyfnod pontio gymryd saith mlynedd neu fwy oherwydd ei natur gymhleth a phellgyrhaeddol.

Tlodi trafndiaeth

30. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor, cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod yr angen i flaenoriaethu buddsoddiad yn y rheilffyrdd wedi effeithio ar feysydd posibl eraill ar gyfer cymorth, megis yr arian sydd ar gael ar gyfer bysiau, a nododd fel buddsoddiad gwell o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol. Nododd y Dirprwy Weinidog fater strwythurol ledled y DU mewn polisi trafndiaeth, lle mae gwasanaethau rheilffordd, sy'n aml o fudd i ddemograffeg dosbarth canol, yn cael eu cadw ar draul ehangu gwasanaethau bysiau, sy'n fwy hanfodol i grwpiau incwm is, pobl ag anableddau, a phobl ifanc. Mae'r gwahaniaeth hwn yn amlygu'r angen am ddull mwy cytbwys. Pwysleisiodd fod TrC yn gweithio tuag at greu system drafndiaeth integredig lle mae gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn cael eu cydgyssylltu'n well nag yn y gorffennol.

31. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn cydnabod y byddai angen i TrC gynyddu prisiau rheilffyrdd mewn ymateb i bwysau chwyddiant. Roedd TrC yn archwilio strwythurau prisiau yn seiliedig ar asesiadau effaith a phatrymau defnydd, a allai arwain at gynnydd is mewn prisiau ar lwybrau penodol neu ar gyfer grwpiau penodol o bobl.

32. Cyfeiriodd y Gweinidog at gydweithio â Gweinidogion yr Economi ac Addysg i fynd i'r afael â rhwystrau trafndiaeth i bobl ifanc rhag cael mynediad i addysg a chyflogaeth. Ystyriwyd hyn yn fater trawslywodraethol, ac roedd angen atebion cynhwysfawr y tu hwnt i bolisiau trafndiaeth.

Teithio llesol

33. Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu £94m o gyfalaf i Linell Wariant Cyllideb Teithio Cynaliadwy a Theithio Llesol. Er nad yw hyn yn gyfystyr â gostyngiad mewn cymhariaeth â chyllideb derfynol 2023-24, mae £5m yn llai na chyllideb

ddangosol 2024-25. Mae'r dyraniad refeniw ar gyfer y BEL hwn wedi gostwng o £1.9m yn 2023-24 i £1.7m yng nghyllideb ddrafft 2024-25.

34. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol. Mae hyn yn cynnwys ailstrwythuro'r Bwrdd Teithio Llesol, craffu gwell, a rolau ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae TrC wedi cyfrannu drwy ddatblygu offeryn blaenoriaethu llwybrau a darparu hyfforddiant teithio llesol i swyddogion ledled Cymru.

35. Ar gyfer 2024-25, pwysleisiodd y Gweinidog y ffocws parhaus ar ehangu cymorth ac offer sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer darparu Rhwydweithiau Teithio Llesol. Bydd yr ymdrech hon yn cynnwys adeiladu arbenigedd canolog o fewn TrC ac arbrofi gyda dulliau cyflawni newydd mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol. Un ffocws allweddol fydd hyrwyddo teithio llesol yn effeithiol, gan gynnwys canllawiau i awdurdodau lleol ar eu dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol.

36. Tynnodd y Gweinidog sylw at bwysigrwydd y Gronfa Teithio Llesol wrth gefnogi buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith teithio llesol. Dywedodd y dystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn cael ei hategu gan raglenni cyllid llai, fel y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy'n canolbwyntio ar welliannau teithio mewn ysgolion.

37. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn amlinellu ffocws ar hyrwyddo teithio llesol. Ym mis Rhagfyr, dywedodd Peter McDonald wrth y Pwyllgor fod cyllid cyfalaf yn unig ar gyfer teithio llesol yn annigonol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyllid refeniw ar gyfer teithio llesol sydd wedi gostwng yn y gyllideb ddrafft.

38. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor, cydnabu'r Dirprwy Weinidog yr her o hyrwyddo teithio llesol i fyfyrwyr ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig gyda mwy o bellteroedd a thirwedd heriol. Pwysleisiodd botensial beiciau trydan i newid y dull o deithio yn yr ardaloedd hyn. Soniodd am ddogfen drafod sydd ar y gweill i herio'r syniad bod trafndiaeth gynaliadwy a newid moddol yn bryderon trefol yn bennaf. Mynegodd y Dirprwy Weinidog gresynu bod nifer o fentrau sydd â'r nod o ehangu'r defnydd o feiciau trydan, gan gynnwys y prosiect E-Move a benthyciad di-log ar gyfer prynu beiciau trydan, wedi'u cyfyngu oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol.

39. Mewn ymateb i gwestiwn am ddefnyddio arian cymunedol o ffermydd gwynt ar gyfer teithio llesol, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod prosiectau peilot

wedi dechrau, ond bod cynnydd wedi bod yn araf oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb.

Ein barn ni

Rheilffyrdd

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod maint yr her y mae TrC, dan arweiniad y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, yn ei hwynebu. Nid yn unig y maent yn ceisio cyflawni prosiect seilwaith sylweddol yn y Metro, ond hefyd yn paratoi'r ffordd tuag at ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau bws. Yn sicr, mae hon yn weledigaeth uchelgeisiol a thrawsnewidiol. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog am bwysigrwydd gwneud gwasanaethau rheilffyrdd yn gynaliadwy ac yn effeithiol yn ariannol fel modd o leihau cymorthdaliadau'r Llywodraeth yn y dyfodol a'r angen i ddal ati.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi dull y Gweinidog mewn egwyddor, ond mae'r ffocws ar reilffyrdd wedi rhoi meysydd eraill o angen dan anfantais. Er ein bod yn cydnabod eu pwysigrwydd, ni all TrC a'r rheilffyrdd gael rhyddid llwyr. Bydd masnachfreinio bysiau yn creu rhwymedigaethau cytundebol pellach, gan gynyddu'r risgiau i Lywodraeth Cymru a phwrs y wlad wrth gario'r risg refeniw. Dylai'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog egluro sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli pe bai pwysau'n codi, sy'n debyg i'r rhai a brofir ar hyn o bryd gan wasanaethau rheilffordd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau monitro cadarn ar waith i oruchwylio datblygiad TrC, cwmni a sefydlwyd gydag un diben ond sydd bellach yn trawsnewid yn gorff cyflenwi trafndiaeth aml-ddull.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dealltwriaeth o'r amserlenni ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng costau a refeniw tocynnau trê'n, a phryd na fydd angen cyllid ychwanegol a ddarperir i TrC i fynd i'r afael â'r diffyg mwyach. Hoffai'r Pwyllgor esbonio'r camau a gymerwyd i sicrhau'r Gweinidog y bydd y codiad sylweddol a ddarperir i TrC yn ddigonol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

Mewn perthynas â'r anghysondeb ymddangosiadol rhwng y dystiolaeth ysgrifenedig (£150m wedi'i ailddyrranu) a BEL refeniw TrC (£110.8m o godiad), hoffai'r Pwyllgor gael eglurhad pellach am y gwahaniaeth hwn mewn tua £40m mewn cyllid - lle mae'n cael ei gynnal, pryd a sut y gellid ei ddefnyddio ac ati.

Mae'r Pwyllgor yn nodi esboniad y Dirprwy Weinidog am y sylwadau gan yr IFS sy'n cymharu Cymru a'r Alban. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd gan

y Dirprwy Weinidog bod rheolaethau priodol ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni prosiect y Metro a disodli cerbydau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eglurhad pellach ar gyflwyno cerbydau, gan gynnwys cyfanswm nifer y trenau ar orchymyn pob math, faint sydd wedi'u darparu hyd yma, lle bydd pob un yn gweithredu, a'r cynllun ar gyfer cyflwyno'r gweddill cam wrth gam.

Gwasanaethau bysiau

Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog o'u hymrwymiad parhaus i wasanaethau bysiau. Mae gwasanaeth bws effeithiol yn hanfodol i gyflawni newid moddol ac, yn ei dro, i gyflawni ymrwymadau Cymru ar y newid yn yr hinsawdd. Rydym yn parhau i bryderu am leihau gwasanaethau bysiau a llwybrau oherwydd diffyg cyllid. Fel yr ydym wedi'i ddweud, rydym yn cydnabod bod hwn yn setliad cyllideb heriol, a bu ffocws angenrheidiol ar y rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae adroddiadau yn y cyfryngau bod 10% o lwybrau bysiau wedi'u colli yn ystod 2023 yn frawychus. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog am unrhyw waith a wnaed i asesu effaith bosibl dyraniadau cyllideb ddrafft 2024-25 ar lefelau gwasanaethau bysiau, o ystyried cyllideb refeniw gwastad yn fras ac effeithiau chwyddiant.

Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog am gyfuno cyllid grant, a fydd yn galluogi dull mwy effeithlon nag o'r blaen. Rydym yn croesawu ac yn cytuno â hyn mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eglurhad pellach ar y newid hwn o ran y dull hwn, gan gynnwys manylion y ffrwd ariannu Ategol i Fysiau newydd a'i diben, yn ogystal â sut mae hyn yn wahanol i'r ffrydiau cyllido sydd wedi dod i ben a'r budd ym mhob achos.

Rydym yn croesawu sefydlu'r Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau fel ffordd o sicrhau defnydd mwy effeithlon o gronfeydd cyfyngedig. Mae angen eglurhad pellach ynghylch ei weithredu, gan gynnwys y meini prawf a fydd yn cael eu cymhwyso i'w ddyraniad a sut y bydd y grant yn cael ei reoli. Hoffem gael eglurhad ar sut y bydd y dull arfaethedig o gomisiynu lefelau gofynnol o wasanaethau a chaffael gwasanaethau bysiau craidd yn gweithio ochr yn ochr â system fysiau sydd wedi'i dadreoleiddio.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithredu'r grant hwn. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch sut y bydd y grant yn rhyngweithio â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau presennol. At hynny, byddem yn croesawu diweddariad ar weithredu'r grant o fewn y chwe mis nesaf.

O ystyried pwysigrwydd y sector a'r angen am sicrwydd, yn enwedig i weithredwyr, mae'r cyfnod arfaethedig o saith mlynedd ar gyfer trosglwyddo i fasnachfreinio bysiau yn peri pryder i'r Pwyllgor. Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Dirprwy Weinidog am gyhoeddi trywydd yn y dyfodol agos a byddwn yn ei ystyried maes o law.

Roedd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu dadansoddiad o gyllid refeniw bysiau yn ei phapur. Dywedodd swyddogion nad oedd y dadansoddiad o arian cyfalaf yn barod ar adeg paratoi'r papur. Gofynnwn i hyn gael ei ddarparu wrth ymateb i'r adroddiad hwn.

Tlodi trafnidiaeth

Nododd Trafnidiaeth Cymru nad oes gan 13% o gartrefi Cymru fynediad at gar, a bod 25% o ddefnyddwyr bysiau ag anabledd neu salwch hirdymor. Canfu Ymchwil Prifysgol De Cymru bod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gweld y dirywiad mwyaf o ran mynediad at wasanaethau bws yn ystod y pandemig.

O ystyried y pwysau ariannol a darparu gwasanaethau ar fysiau a rheilffyrdd, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o'r camau a gymerwyd i liniaru tlodi trafnidiaeth wrth flaenoriaethu dyraniadau yn y gyllideb ddrafft.

Nodwn sylwadau'r Dirprwy Weinidog y bydd angen i TrC gynyddu prisiau tocynnau rheilffordd mewn ymateb i bwysau ariannol. Wrth gwrs, mae risgiau y gallai cynnydd mewn prisiau atal teithwyr rhag teithio ar y trenau, sy'n golygu y bydd cau'r bwlch rhwng refeniw tocynnau trên a chostau yn cymryd mwy o amser. Serch hynny, roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i TrC ystyried dull cynnil o gynyddu prisiau er mwyn lleihau'r effaith ar rai grwpiau. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn y chwe mis nesaf.

Rydym yn cytuno â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog am bwysigrwydd cysoni cynlluniau trafnidiaeth â chynlluniau datblygu eraill. Fodd bynnag, hyd yn hyn, bu diffyg eglurder ynghylch amserlenni ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad gan y Dirprwy Weinidog ar y mater hwn.

Roeddem yn falch o glywed bod y Gweinidog yn gweithio gyda'i chydweithwyr ar draws y llywodraeth i fynd i'r afael â rhwystrau trafnidiaeth y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad at addysg a chyflogaeth. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog bod y mater hwn yn cael ei gydnabod fel

pryder trawslywodraethol. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am gynnydd o fewn y chwe mis nesaf.

Teithio llesol

Er gwaethaf cynnydd yng nghyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes llawer o dystiolaeth bod cyfraddau teithio llesol wedi cynyddu ers pasio Deddf Teithio Llesol 2013.

Rydym yn nodi y bu gostyngiadau yn y cyllid arfaethedig ar gyfer teithio llesol. Yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb y llynedd, nododd y Dirprwy Weinidog nad oedd cyllid ar y lefel a nodwyd yn flaenorol oherwydd cyfyngiadau capasiti a gallu o fewn llywodraeth leol. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2023, nododd James Price fod cynnydd yn cael ei wneud ac mae awdurdodau lleol wedi dangos uchelgais newydd o ran cyflwyno cynlluniau teithio llesol. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

Rydym yn parhau i bryderu am yr effaith ehangach bosibl ar dargedau newid moddol os nad yw buddsoddiad teithio llesol yn ddigonol. Dylai'r Dirprwy Weinidog egluro a fydd y cyllid a ddyrannwyd yn ddigonol i ariannu'r holl gynlluniau arfaethedig neu a fydd rhai cynlluniau'n cael blaenoriaeth. Os mai'r olaf ydyw, dylai'r Dirprwy Weinidog nodi'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r fath. At hynny, dylai'r Dirprwy Weinidog rannu manylion â'r Pwyllgor o'r gwaith y mae TrC wedi'i wneud i fynd i'r afael â materion capasiti a gallu llywodraeth leol er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o'r arian sydd ar gael.

Roeddem yn falch bod dystiolaeth y Gweinidog yn manylu ar gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol. Byddem yn falch o gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o fewn y chwe mis nesaf. Rydym hefyd yn croesawu ffocws y llywodraeth ar hyrwyddo teithio llesol, gan gynnwys cynlluniau i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, o dan y Ddeddf Ansawdd Aer a Seinweddau newydd. Dylai'r Gweinidog egluro a yw cyllid wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer y gwaith hwn.

Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at botensial beiciau trydan i hwyluso teithio llesol ond nododd fod cyfyngiadau ariannol yn cynnwys mentrau cyfyngedig fel y prosiect E-Move a benthyciadau di-log ar gyfer beiciau trydan. Rydym yn gofyn am ragor o fanylion am y cynlluniau hyn, gan gynnwys a yw cyfleoedd ariannu arloesol wedi'u harchwilio, megis o gynlluniau buddion cymunedol sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Dirprwy Weinidog yn rhoi dadansoddiad o'r BEL cyfalaf Teithio Cynaliadwy a Llesol i'r Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ei ddarparu yn ei phapur, er gwaethaf ein cais amdano, gan gynnwys dyrannu cyllid ar gyfer teithio llesol a'r gwariant y pen ar gyfer 2024-25.

Argymhellion

Recommendation 1. Dylai'r Gweinidog egluro'r anghysondeb rhwng y dystiolaeth ysgrifenedig o £150 miliwn a ailddyrannwyd a Therfyn Gwariant Cyllideb (BEL) refeniw TrC o £110.8 miliwn, sy'n nodi ble mae'r tua £40 yn cael ei gadw, a sut / pryd y caiff ei ddefnyddio.

Recommendation 2. Dylai'r Gweinidog amlinellu cynllun clir a manwl, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer lleihau'r bwch rhwng costau rheilffyrdd a refeniw tocynnau trê'n yng nghyd-destun newid patrymau defnydd teithwyr a chwyddiant uchel. Dylai'r cynllun hwn nodi pryd na fydd angen cyllid ychwanegol i TrC mwyach.

Recommendation 3. Dylai'r Gweinidog roi sicrwydd bod mesurau rheoli priodol ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni'r prosiect Metro ac adnewyddu cerbydau.

Recommendation 4. Dylai'r Gweinidog ddiweddarau'r Pwyllgor ar gyflwyno cerbydau, gan gynnwys cyfanswm nifer y trenau wedi'u harchebu o bob math, lle bydd pob un yn gweithredu, faint sydd wedi'u darparu a'r cynllun ar gyfer cyflwyno'r gweddill cam wrth gam.

Recommendation 5. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod TrC ac awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n effeithiol â theithwyr a dinasyddion eraill i egluro'n well y weledigaeth o system trafndiaeth gyhoeddus aml-ddull a'r broses sy'n cael ei dilyn i gyflawni hynny.

Recommendation 6. Dylai'r Gweinidog nodi pa waith sydd wedi'i wneud i asesu effaith y dyraniadau yng nghyllideb 2024-25 ar lefelau gwasanaeth bysiau gan ystyried y gyllideb refeniw gwastad yn fras ac effeithiau chwyddiant.

Recommendation 7. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am y newid yn y dull o ariannu bysiau, gan gynnwys manylion y ffrwd ariannu Ategol i Fysiau newydd a'i ddiben, yn ogystal â sut mae hyn yn wahanol i bob un o'r ffrydiau ariannu a ddaeth i ben sy'n rhoi'r budd ym mhob achos.

Recommendation 8. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithredu'r Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau.

Recommendation 9. Dylai'r Gweinidog egluro'r meini prawf ar gyfer dyrannu Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau a sut y bydd yn rhyngweithio â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau presennol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu'r grant o fewn y chwe mis nesaf.

Recommendation 10. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion am gynnydd ymdrechion trawslywodraethol i fynd i'r afael â'r rhwystrau trafndiaeth y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad i addysg a chyflogaeth.

Recommendation 11. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ymdrechion i fynd i'r afael â materion capasiti a gallu llywodraeth leol mewn perthynas â theithio llesol. Dylai'r Gweinidog nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog awdurdodau lleol i wella cydweithredu er mwyn cynyddu capasiti.

Recommendation 12. Dylai'r Gweinidog egluro a fydd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer teithio llesol yn ddigonol i ariannu cynlluniau arfaethedig ac, os na, pa feini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu'r cynlluniau hyn.

Recommendation 13. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y chwe mis nesaf ar y cynnydd a wnaed wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol.

Recommendation 14. Dylai'r Gweinidog egluro a yw cyllid wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer hyrwyddo teithio llesol yn unol â'u dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf Ansawdd Aer a Seinweddau.

Recommendation 15. Dylai'r Dirprwy Weinidog roi rhagor o fanylion am gynlluniau ar gyfer annog defnyddio beiciau trydan, gan gynnwys a yw cyfleoedd ariannu arloesol wedi'u harchwilio.

Recommendation 16. Dylai'r Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r BEL Cyfalaf Bysiau a chyllid teithio llesol, gan gynnwys gwariant y pen. Gofynnwn i gyfres pum mlynedd gael ei darparu ar gyfer pob un fel yn y blynyddoedd diwethaf.

Recommendation 17. Dylai'r Gweinidog egluro sut y caiff yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb, o ran proses y gyllideb a'r lefelau cyllido penodol a ddyrennir i bob lefel.

2. Bioamrywiaeth

40. Mae'r cyfalaf BEL 'Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion' wedi aros yn sefydlog ar £12.5m. Mae'r refeniw BEL wedi gostwng £1.5m, o £13.3m yng Nghyllideb Ddangosol 2024-25 i £11.8m yn y gyllideb ddrafft (-11.3%).

Ariannu adfer natur

41. Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, gwnaeth Cyswilt Amgylchedd Cymru (WEL) fynegi pryderon y bydd buddsoddiad mewn adfer natur yn cael ei ddadflaenoriaethu o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol presennol.

42. Wrth sôn am hyn, pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd dull integredig, gan ychwanegu ei bod yn gweithio gyda'r sector amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru i geisio trosoli'r holl arian y gallwn [i fuddsoddi mewn adfer natur].

Pwysigrwydd buddsoddiad preifat

43. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, tynnodd RSPB Cymru sylw at y ffaith na fydd buddsoddiad cyhoeddus yn ddigon i ariannu adferiad byd natur. Roedd yn pwysleisio rôl hollbwysig Llywodraeth Cymru wrth alluogi buddsoddiad preifat cyfrifol. Amlygodd WEL nad oes llwybr nac amserlen glir i arwain buddsoddiad preifat.

44. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn dweud bod "cyllideb wedi'i dyrannu i gefnogi datblygiad model cyllid arloesol yn y dyfodol" i fynd i'r afael â'r argyfwng naturiol. Mewn tystiolaeth lafar, rhoddodd ddiweddariad ar y gwaith hwn, gan ddweud eu bod yn gweithio gyda nifer o weithredwyr, gan gynnwys y Clymblaid Dan 2 fyd-eang... o ran sut y gallant ysgogi cyllid gwyrdd o bob cwr o'r byd. Pwysleisiodd bwysigrwydd osgoi gwyrddgalchu.

45. Esboniodd swyddog y Gweinidog mai'r cam nesaf fyddai datblygu egwyddorion i arwain y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau buddsoddiad cyfrifol. Disgwylwyd set o egwyddorion arfaethedig yn hanner cyntaf eleni ac y byddai, gobeithio, yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Gwreiddio bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth

46. Yn ystod sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft y llynedd, cydnabu'r Gweinidog fod angen gwneud mwy i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ymgorffori

bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth gyfan. Yn ystod y sesiwn eleni, rhoddodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog sawl enghraifft o sut mae bioamrywiaeth yn cael ei phrif ffrydio, gan gynnwys drwy Lwybr Newydd i Natur (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol), sydd eisoes wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

47. Cydnabu'r Gweinidog fod gwariant ar fioamrywiaeth yn anodd iawn i'w nodi ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at gyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n rhan o'r portffolio Materion Gwledig, fel enghraifft o wariant ar fioamrywiaeth. Eglurodd y Gweinidog fod y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb wedi cytuno i ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru integreiddio bioamrywiaeth yn well i'r broses o gynllunio'r gyllideb.

48. Mae RSPB Cymru wedi awgrymu y byddai Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NARP) sydd wedi'i gostio gan draws y llywodraeth yn caniatáu buddsoddiad strategol ym myd natur. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn dweud bod yr NARP "yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r targedau a'r nodau a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd, yn ogystal â diffinio'r camau sydd eu hangen i gyflawni ein targedau statudol domestig arfaethedig".

Cyllid Rhaglen Rhwydweithiau Natur

49. Mae [Naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru](#) yn dweud bod y gostyngiad yn y dyraniad refeniw yn BEL 'Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion' wedi'i gyflawni drwy ailbroffilio'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur" ac y bydd "buddsoddiad yn parhau y flwyddyn nesaf ond ar raddfa lai". Yn dilyn y **Plymio Dwfn Bioamrywiaeth**, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i "ehangu a chynyddu" y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Caiff prosiectau eu hariannu drwy'r **Gronfa Rhwydweithiau Natur** (NNF). Ym mis Hydref 2023, dywedodd y Gweinidog wrth y **Pwyllgor** bod y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn ganolog i gyrraedd y targed 30x30.

50. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor yn ystod sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft:

"we had originally intended to increase the scale and pace of delivery for the [Nature Networks] programme. The overall allocation is now equivalent to that made this year, to secure and build on the investment... We haven't been able to scale it up in the way we originally planned, but we aren't scaling it

back either, other than some efficiency in the revenue aspects of it.”

Ein barn ni

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2030 a sbarduno adferiad yn unol â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y cytunwyd arno. Ni ddangoswyd unrhyw arafu yn nirywiad bioamrywiaeth yn [Adroddiad Sefyllfa Byd Natur](#) (Medi 2023), felly bydd cyflawni'r ymrwymiad hwn yn her aruthrol.

Fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog, mae'r Rhaglen Rhwydwaith Natur yn ganolog i gyflawni'r nod '30x30'. Mae'n anffodus, felly, nad yw'r dyraniad cyllideb yn darparu i'r rhaglen gael ei hehangu a'i graddio, fel yr addawyd. Fel y dywedodd WEL wrthym, mae angen i ni adfer natur tra bod rhywfaint i weithio gyda hi o hyd... Bydd ond yn mynd yn ddrutach ac anodd ei wneud, po hwyaf y byddwn yn parhau. Os bydd sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn gwella, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog ystyried a ellir darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Rhwydwaith Natur.

Rydym yn cefnogi'r alwad am Gynllun Gweithredu Adfer Natur trawslywodraethol wedi'i gostio i ganiatáu buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur. Bydd hyn yn gwella tryloywder ac yn cefnogi craffu, a fydd yn gynyddol bwysig pan fydd y targedau bioamrywiaeth statudol ar waith.

Rydym yn pryderu am yr effaith anuniongyrchol y bydd gostyngiadau mewn cyllid ar draws portffolio'r Gweinidog yn ei chael ar gyrrff anllywodraethol amgylcheddol. Rydym yn cydnabod nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ond maent yn cyflawni diben gwerthfawr o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni polisiau mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy fonitro ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Nod argymhellion y Plymio Dwfn Bioamrywiaeth yw ysgogi camau ymlaen i gefnogi'r nod o '30x30'. Nid yw'n glir faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion na sut mae'r gwaith o gyflawni'r gwaith yn datblygu. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ddiweddarau'r Senedd bob dwy flynedd ar gynnydd, ond mae'r ail ddiweddariad bellach yn hwyr. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rydym yn cydnabod na fydd buddsoddiad cyhoeddus ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau adferiad natur. Mae buddsoddiad preifat yn hanfodol i fynd i'r afael â'r bwch cyllido ym maes natur.

Ers sawl blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio tuag at ddatblygu model cyllid arloesol a chynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth, gan ymgorffori'r defnydd o fuddsoddiad preifat. Rydym yn falch bod cynnydd yn cael ei wneud o'r diwedd, ond mae'n rhaid iddo barhau ar frys. Rydym yn disgwyl i'r model cyllid gael ei gwblhau cyn y broses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2025-26 a'i defnyddio i lywio penderfyniadau gwariant. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd.

Argymhellion

Recommendation 18. Pe bai amgylchiadau ariannol Llywodraeth Cymru yn gwella, dylai'r Gweinidog ystyried cynyddu'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 i ehangu a chynyddu Rhaglen y Rhwydwaith Natur.

Recommendation 19. Dylai'r Gweinidog ymrwmo i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig yn cael ei gostio i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur, gwella tryloywder a chefnogi gwaith craffu.

Recommendation 20. Dylai'r Gweinidog egluro sut y mae'n gweithio ar y cyd â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig i sicrhau'r effaith gorau posibl o arian cyfyngedig ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys drwy'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy arfaethedig.

Recommendation 21. O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu model cyllid arloesol a chynaliadwy i sicrhau adferiad natur. Dylai hyn gynnwys y drafft egwyddorion arweiniol ar gyfer buddsoddi preifat cyfrifol i gefnogi adferiad byd natur.

Recommendation 22. Dylai'r Gweinidog ymrwmo i sicrhau bod y model cyllid /arloesol a chynaliadwy yn cael ei gwblhau cyn y broses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2025-26 ac fe'i defnyddir i lywio penderfyniadau gwariant.

Recommendation 23. Dylai'r Gweinidog egluro faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2024-25 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu Plymio Dwfn Bioamrywiaeth, ac ymrwmo i gyhoeddi'r ail ddiweddariad bob dwy flynedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu cyn diwedd mis Chwefror 2024.

3. Morol

51. Mae'r BEL 'Tystiolaeth Forol, Polisi a Chyllid' yn dangos gostyngiad o £250k mewn cyllid refeniw, o £1.9m i £1.7m.

Oedi wrth gwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

52. Yn dilyn argymhellion Plymio Dwfn Bioamrywiaeth, cyhoeddodd y Gweinidog broses ymgysylltu cyn-ymgyngori ar ddynodi Parthau Cadwraeth Morol. Ers hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid ac mae disgwyl ymgynghoriad ffurfiol ar safleoedd arfaethedig yng Ngwanwyn 2024.

53. Mewn ymateb i adroddiad cyllideb ddrafft 2023-24 y Pwyllgor hwn, sicrhodd y Gweinidog y Pwyllgor fod dynodi Parthau Cadwraeth Morol yn flaenoriaeth weithredol gydag adnoddau digonol.

